# Gwneud i dwf gyfrif? Datblygiad economaidd ym Mhowys

Cyngor Sir Powys

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi hwn o dan adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 7 |
| Argymhellion | 11 |
| Atodiadau | 12 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 13 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 15 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr edrychom arno

1 Fe wnaethom edrych ar ddull gweithredu Cyngor Sir Powys (y Cyngor) o ran datblygu economaidd. Roedd hyn yn cynnwys strategaeth economaidd y Cyngor sy'n dod i'r amlwg yr oedd yn ymgynghori arni yn ystod yr archwiliad.

2 Wrth adolygu dull y Cyngor, gwnaethom ystyried sut mae'n rheoli rhai prosiectau economaidd. Ond nid yw'r archwiliad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o'r prosiectau unigol hynny.

3 Fe wnaethom geisio ateb y cwestiwn cyffredinol: A oes gan y Cyngor ddull effeithiol er mwyn creu economi ffyniannus a bywiog?

## Pam y mae hyn yn bwysig

4 Nid oes gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i gyflawni datblygiad a thwf economaidd. Mae economi gref, fodd bynnag, yn cefnogi swyddi, sgiliau a chymunedau. Mae gan y Cyngor ran bwysig wrth lunio lleoedd lleol. Mae hefyd yn gweithio fel rhan o ddulliau rhanbarthol, er enghraifft, Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth y Gororau Ymlaen. Mae'r partneriaethau hynny'n canolbwyntio ar ddenu buddsoddiad a chreu'r amodau i gefnogi datblygiad a thwf economaidd.

5 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau economaidd gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy. Mae'r Cyngor yn ystyried datblygu economaidd yn faes pwysig i gyflawni'r amcanion yn ei Gynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'.

6 Mae'n bwysig deall pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn cynllunio, cyflawni a gwerthuso effaith ei ddull datblygu economaidd. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i elwa i’r eithaf ar fuddion i gymunedau a chyflawni canlyniadau hirdymor cynaliadwy.

7 Mae hefyd yn bwysig bod y Cyngor yn deall y risgiau a'r canlyniadau posibl o beidio â chyflawni ei uchelgeisiau yn effeithiol.

## Yr hyn a ganfuom

8 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth gref o'r heriau economaidd sy'n wynebu'r sir. Mae wedi datblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r rheini. Mae'r strategaeth honno'n cynnwys gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer dyfodol economi Powys. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i symud i ddull mwy rhagweithiol a strategol.

9 Roedd y Cyngor yn datblygu ei ddull ar adeg ein hadolygiad. Oherwydd hyn, nid oedd wedi cytuno eto sut y byddai'n goruchwylio'r cyflawniad yn strategol. Nid yw ei fesurau i fonitro llwyddiant ei ddull newydd yn ddigon penodol ac ystyrlon.

10 Ceisiodd y Cyngor ymgysylltu â chymunedau lleol a phartneriaid rhanbarthol wrth ddatblygu ei strategaeth. Ond cafodd ymgynghoriad cyhoeddus y Cyngor ymateb isel iawn.

11 Nid yw'r Cyngor wedi asesu eto yr effaith bosibl o beidio â chyflawni'n effeithiol yn erbyn ei uchelgeisiau.

## Yr hyn rydym yn ei argymell

12 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad. Mae'r rhain yn ymwneud â sut y bydd y Cyngor yn mesur llwyddiant ei strategaeth economaidd drwy’r canlynol:

- datblygu mesurau llwyddiant mwy penodol;
- datblygu trefniadau clir i oruchwylio gweithredu'r strategaeth;
- rheoli risgiau.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth datblygu economaidd newydd yn gynnar yn 2026. Mae'r Cyngor wedi enwi hwn yn Saesneg yn strategaeth GROW: (Growth, Resilience, Opportunities, Wellbeing

- Twf mewn sectorau allweddol o'n heconomi
- Gwytnwch ac addasrwydd ein hamgylchedd
- Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi ac arloesi
- Lles trwy well cyflog a dysgu

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar saith sector twf blaenoriaeth. Mae'n cynnwys cymysgedd o'r canlynol:

- prosiectau strategol mawr fel CymruTech Park a'r Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd;
- prosiectau llai, lleol, fel Neuadd y Farchnad yn Aberhonddu, a datblygiadau tai fforddiadwy

Mae'r Cyngor wedi nodi 12 mesur llwyddiant i olrhain cynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflog cyfartalog a chynnydd cynhyrchiant
- Busnesau newydd
- Lleihau $CO_2$
- Lefelau sgiliau uwch
- Gwell ansawdd afonydd
- Gwydnwch bwyd

# Ein canfyddiadau

## Gweledigaeth strategol

### Mae gweledigaeth strategol y Cyngor yn cael ei hategu gan ddealltwriaeth dda o heriau economaidd Powys

13 Ar y cyfan, gwelsom fod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r heriau economaidd sy'n wynebu Powys. Mae'r heriau hynny'n cynnwys:

- daearyddiaeth a gwledigrwydd Powys;
- lefelau tlodi tanwydd uchel;
- bylchau ym marchnad lafur Canolbarth Cymru;
- poblogaeth sy'n heneiddio

14 Mae'r Cyngor wedi datblygu gweledigaeth economaidd glir ac uchelgeisiol ar gyfer Powys. Mae'r weledigaeth yn adlewyrchu maint a heriau economaidd y sir. Mae dull y Cyngor yn amlwg yn canolbwyntio ar greu sir fwy ffyniannus, cynaliadwy a chynhwysol. Mae dull y Cyngor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- gwella cyflog;
- cryfhau sgiliau;
- cefnogi cymunedau ffyniannus;
- cynyddu gwytnwch amgylcheddol.

Mae gweledigaeth y Cyngor yn bwysig i roi eglurder i drigolion, partneriaid eraill a busnesau am gamau gweithredu'r Cyngor yn y dyfodol i ddatblygu'r economi leol.

15 Ar adeg ein gwaith, roedd y Cyngor yn ymgynghori ar ei strategaeth datblygu economaidd newydd. Mae gweledigaeth lefel uchel y Cyngor wedi'i nodi'n glir yn y strategaeth hon. Mae'n cynnwys naratif cryf, seiliedig ar le i gefnogi datblygiad economaidd hirdymor. Mae hefyd yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r strategaeth hon yn nodi newid i ffwrdd o ddull blaenorol y Cyngor i ffordd hirdymor, fwy rhagweithiol o weithio.

16 Er mwyn cyflawni ei weledigaeth, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar saith maes twf allweddol. Y rhain yw:

- Gweithgynhyrchu a pheirianneg uwch;
- Ynni;
- Amaethyddiaeth, garddwriaeth ac economi arall sy'n seiliedig ar yr amgylchedd;
- Amddiffyn, deallusrwydd artiffisial a seiber;
- Adeiladu ac ôl-osod;
- Twristiaeth a digwyddiadau/diwydiannau creadigol;
- Economi sylfaenol.

17 Mae'r Cyngor yn cydnabod cyfleoedd i gryfhau'r ffordd y mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ei strategaeth newydd. Canolbwyntiodd ei ymgynghoriad ar drigolion Powys. Roedd yn canolbwyntio'n arbennig ar fusnesau. Fe wnaeth hefyd ymgymryd ag ymgynghoriad penodol â phobl ifanc a chynghorau tref a chymuned. Fodd bynnag, roedd y lefelau ymateb yn isel iawn. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd bod y strategaeth yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau.

# Monitro effaith

## Nid yw'r Cyngor yn canolbwyntio’n ddigon manwl ar effaith

18 Mae'r Cyngor yn defnyddio ei broses cynllunio busnes i drosi camau gweithredu strategol yn gynlluniau busnes blynyddol. Mae'r cynlluniau hynny'n cynnwys y camau gweithredu allweddol, mesurau perfformiad, a rolau a chyfrifoldebau. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i olrhain cynnydd yn erbyn gweithgaredd.

19 Fodd bynnag, nid yw mesurau perfformiad datblygu economaidd y Cyngor a adroddwyd yn gyhoeddus yn nodi'r effaith yn glir. Nid yw'r data yn canolbwyntio yn gyson ar ganlyniadau nac effaith. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn adrodd ar 'nifer y busnesau sy'n cael eu cefnogi i ehangu a thyfu'. Yn chwarter tri 2025-26, cefnogodd y Cyngor 276 o fusnesau yn erbyn targed o 10. Ond nid yw'r adroddiad hwn yn dangos i ba raddau y mae'r busnesau hynny wedi ehangu neu dyfu. Felly, nid yw'r Cyngor yn dangos effaith lawn ei weithgaredd yn gyhoeddus.

20 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu mesurau llwyddiant yn llawn i fonitro ei ganlyniadau strategol o dan ei ddull newydd. Nid yw wedi diffinio ei fesurau yn glir mewn ffordd amserol neu fesuradwy. Mae rhai mesurau llwyddiant y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor, er enghraifft, 'codiad cyflog cyfartalog' a 'gwariant Datblygu, Ymchwil ac Arloesi '. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor wedi diffinio mesurau llwyddiant eraill yn fanwl, er enghraifft, 'gwydnwch bwyd'. Heb ddiffinio'n glir sut olwg sydd ar lwyddiant a sut mae'n cyfrannu at y llwyddiant hwnnw, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ddeall a dangos effaith.

# Llywodraethiant

## Nid yw'r Cyngor wedi datblygu dull strategol o oruchwylio cynnydd eto

21 Nid yw'r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn goruchwylio cyflawni ei ddull gweithredu ar lefel strategol. Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau goruchwyliaeth strategol ar gyfer blaenoriaethau eraill, fel addysg. Ond nid yw wedi rhoi trefniadau tebyg ar waith ar gyfer datblygu economaidd eto. Mae strategaeth y Cyngor yn cynnwys ystod o brosiectau o wahanol faint. Mae'r prosiectau'n amrywio o ddatblygiadau strategol, sy'n cefnogi nifer fawr o swyddi, i brosiectau llai mewn cymunedau lleol. Mae'r ystod hon yn gofyn am ddull clir o fonitro cynnydd cyffredinol. Mae hyn yn bwysig i ddeall a yw'r Cyngor yn cyflawni ei weledigaeth strategol.

22 Nid yw'r Cyngor wedi asesu effaith bosibl methu â chyflawni ei strategaeth datblygu economaidd yn ffurfiol. Yn 2025, fe wnaethom adrodd ar drefniadau rheoli risg corfforaethol y Cyngor.[1] Nodwyd bryd hynny nad yw "disgrifiadau risg y Cyngor yn nodi'n gyson yr effaith bosibl ar amcanion strategol y Cyngor". Nid yw cofrestrau risgiau'r Cyngor yn nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei strategaeth datblygu economaidd. Gall hyn gyfyngu ar allu'r Cyngor i ddatblygu camau rheoli perthnasol i leihau tebygolrwydd neu effaith y risg honno.

[1] Archwilio Cymru, Cyngor Sir Powys – Adolygiad o drefniadau rheoli risg corfforaethol, Hydref 2025

# Argymhellion

### A1 Canlyniadau ac effaith

Er mwyn dangos cynnydd ac effaith ei ddull datblygu economaidd, dylai'r Cyngor fireinio ei fesurau canlyniadau (**paragraffau 19 a 20**).

Dylai hyn gynnwys:

- dangosyddion mesuradwy ar gyfer pob canlyniad;
- data gwaelodlin a thargedau realistig i ddangos cynnydd.

### A2 Llywodraethu a goruchwylio

Dylai'r Cyngor ddatblygu ei drefniadau i sicrhau goruchwyliaeth strategol o weithredu ei strategaeth (**paragraff 21**).

Dylai hyn:

- alluogi'r Cyngor i fonitro sut mae prosiectau unigol yn cyfrannu at amcanion a chanlyniadau strategol;
- darparu dull strwythuredig o adolygu cynnydd.

### A3 Rheoli risgiau

Dylai'r Cyngor asesu effaith bosibl o beidio â chyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a nodi camau rheoli perthnasol (**paragraff 22**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Archwiliodd yr archwiliad hwn y trefniadau i gyflawni datblygiad a thwf economaidd. Archwiliodd sut mae'r Cyngor yn cynllunio, cyflawni a monitro'r trefniadau hyn. Roedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys prosesau cynllunio busnes y Cyngor. Nid oedd yr archwiliad yn asesu effeithiolrwydd prosiectau unigol ond yn canolbwyntio ar gamau strategol y Cyngor.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull gweithredu clir, strategol i gyflawni datblygiad a thwf economaidd?
- A yw'r Cyngor wedi cynnwys partneriaid a chymunedau lleol wrth ddatblygu ei ddull gweithredu?
- A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau datblygu economaidd?
- A oes gan y Cyngor brosesau monitro ac adolygu effeithiol, i sicrhau bod y cynllun busnes yn cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig?

### Meini Prawf

Mae ein meini prawf archwilio yn nodi sut olwg sydd ar dda. Mae'r meini prawf wedi'u llywio gan yr egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad hwn y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau;
- cyfweld â swyddogion a chynghorwyr perthnasol;
- ymgysylltu â phartneriaid lleol a rhanbarthol.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Egwyddor datblygu cynaliadwy** | Gweithredu mewn modd 'sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. |
| **Datblygu economaidd** | Camau gweithredu i wella llesiant economaidd, gan gynnwys swyddi, incwm, sgiliau, ac ansawdd bywyd. |
| **Strategaeth Datblygu Economaidd (strategaeth GROW)** | Cynllun hirdymor y Cyngor i dyfu'r economi, gwella cyflogau, a chefnogi cymunedau. |
| **CymruTech Park** | Prosiect cyfalaf gwerth £67 miliwn sydd â’r nod o fod yn ganolfan ganolog ar gyfer arloesi, datblygu sgiliau a chymorth i ddiwydiant. |
| **Canolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE)** | Cyfleuster pwrpasol wedi'i gynllunio i ddarparu ymchwil, profi ac ardystio o'r radd flaenaf ar gyfer cerbydau rheilffyrdd, seilwaith rheilffyrdd, a thechnolegau rheilffyrdd sy'n dod i'r amlwg. |
| **Sectorau twf â blaenoriaeth** | Rhannau allweddol o'r economi y mae'r Cyngor yn eu targedu i gefnogi twf a buddsoddiad. |
| **Dull seiliedig ar le** | Dull sy'n canolbwyntio ar anghenion a chryfderau lleoedd neu gymunedau penodol. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Trefniadau llywodraethu** | Sut mae'r Cyngor yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli, gan gynnwys rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd. |
| **Atebolrwydd** | Cyfrifoldeb clir am gyflawni camau gweithredu a chyflawni'r canlyniadau disgwyliedig. |
| **Canlyniad** | Y newid mesuradwy y mae polisi neu weithgaredd yn bwriadu ei gyflawni. |
| **Effaith** | Effaith gyffredinol gweithredoedd ar bobl, cymunedau, neu'r amgylchedd. |
| **Allbwn** | Yr hyn y mae'r Cyngor yn ei gyflawni, megis darparu gwasanaethau, prosiectau, neu gymorth. |
| **Mesur perfformiad** | Ffordd o olrhain cynnydd, gan gynnwys gweithgaredd, allbynnau neu ganlyniadau. |
| **Mesur llwyddiant** | Dangosydd a ddefnyddir i asesu a yw strategaeth neu brosiect yn cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig. |
| **Data gwaelodlin** | Y safle cychwynnol a ddefnyddir i fesur newid dros amser. |
| **Targed** | Lefel y gwelliant y mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni o fewn amserlen benodol. |
| **Risg (risg strategol)** | Rhywbeth a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ei amcanion. |
| **Cofrestr risgiau** | Cofnod o risgiau, gan gynnwys eu heffaith a sut y byddant yn cael eu rheoli. |
| **Gweithredoedd rheoli** | Camau a gymerir i leihau tebygolrwydd o risg neu ei effaith. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Partneriaethau rhanbarthol (e.e. Tyfu Canolbarth Cymru)** | Sefydliadau sy'n gweithio ar draws gwahanol ardaloedd y cyngor i ddenu buddsoddiad a chefnogi twf economaidd. |
| **Economi sylfaenol** | Gwasanaethau bob dydd y mae pobl yn dibynnu arnynt, fel bwyd, tai, cyfleustodau, a gofal. |
| **Datblygu, Ymchwil ac Arloesi** | Buddsoddi mewn creu syniadau, technolegau neu ffyrdd newydd o weithio. |
| **Tlodi tanwydd** | Pan nad yw aelwydydd yn gallu fforddio cadw eu cartrefi yn ddigon cynnes. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.